



Dysgu yn drawsgwricwlaidd

Gweithgareddau Cyfnod Sylfaen - Bl.2

Model Barnes (2015) 'Thema seiliedig'

Mae'r model yma'n cael ei diffinio gan Barnes (2015) fel un sy'n cadarnhau archwiliad o fewn nifer o wahanol feysydd dysgu trwy ddefnyddio un thema benodol.

Gweithgaredd

Cynlluniwyd y gweithgaredd yma er mwyn ehangu dealltwriaeth disgyblion ynglŷn â defnyddio llythrennedd a rhifedd ochr yn ochr yn drawsgwricwlaidd. Mae'r hyn trwy ffocysu ar thema 'pethau byw' a maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd. Ar gyfer y gweithgaredd yma dechreuwyd trafodaeth gyda'r disgyblion ynglŷn ag anifeiliaid anwes er mwyn denu diddordeb y dysgwyr. Yna gyfeiriwyd y drafodaeth tuag at fwystfilod a sut/ble maent yn byw. Ar ôl hyn, bydd y plant yn ymgymryd â thasg lle fydd angen rhoi'r anifeiliaid yn eu cynefinoedd cywir. Wrth neud hyn bydd disgwyl i'r plant datrys y broblem o ddarllen a dewis y ffaith sy'n perthyn i bob bwystfilod bach ac esbonio pam mai'r ffaith yma yng nghyd fynd gyda'r bwystfilod. Ar ddiwedd y wers cyfeiriwyd yn ôl at drafodaeth ar ddechrau'r wers a gofyn cwestiynau i'r plant ynglŷn â beth yw dealltwriaeth nhw nawr am fwystfilod (gyda'r disgwiliad bydd plant yn ailadrodd ffeithiau dosbarthwyd yn y gweithgaredd).

Sgiliau Llythrennedd (YAAS, 2015)



Llinyn: Llafaredd ar draws y cwricwlwm
Elfen: Datblygu a chyflwynogwybodaeth a syniadau
Sgiliau: dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol.
Ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, e.e.Ydy? Ydy/Nac ydy.

Sgiliau Rhifedd (YAAS, 2015)

Llinyn: Datblygu ymresymu rhifyddol
Elfen: Adnabod prosesau a chysylltiadau
Sgil: defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif.

Cryfderau a chyfyngiadau

Mae'r model yma yn rhoi nifer o gyfleoedd i ddatblygu disgyblion ar draws y meysydd dysgu, yn enwedig trwy ddefnyddio cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Yn ogystal, mae'n datblygu "gyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau" (Donaldson, 2015). Trwy weithio fel tîm bydd disgyblion fwyaf mentrus yn codi hyder y rhai lleiaf mentrus wrth drafod rhesymau dros atebion i'r dasg. Ar y llaw arall, mae'n bwysig eich bod yn ystyried y thema rydych yn bwriadu defnyddio. Os nad ydych yn defnyddio yn effeithiol gall arwain at gyfyngiad i'r dysgu (Barnes, 2015). Bydd yr hyn yn arwain at ddatblygiad wan o'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ar draws y cwricwlwm.



Wrth gynllunio cyfres o wersi mae'n hanfodol ystyried amcanion y dysgu. Amlinellwyd gan Krathwohl a Bloom a Masia (1964) cynllunio amcanion dysgu sydd o bwrpas a phwysigrwydd ddiffinio'r rhain yn glir. Cynlluniwyd 'Tacsonomeg Bloom' ar gyfer athrawon wrth greu amcanion dysgu effeithiol fel strategaeth (Krathwohl a Bloom a Masia, 1964). Mae'r hierarchaidd yn cynnwys sgiliau gwybyddol a phwysigrwydd cynnwys y rhain yn y dysgu. Mae 'Tacsonomeg Bloom' yn ffocysu ar sgiliau meddwl y disgyblion yn hytrach na chanolbwyntio ar asesiadau a data (Heick, 2017).

Y Ffordd Ymlaen

Trwy gynllunio'r gweithgareddau yma yn seiliedig ar y ddau fodel mae'r cyfle o ddatblygu dealltwriaeth disgyblion a pherthynas gyda rhieni yn fwy trwy ddosbarthu gwaith cartref sydd o fudd i ddatblygiad disgyblion.

Cynlluniwyd bod y disgyblion yn ymgymryd â'r cyfle o ddefnyddio gwefan 'hwb' yn hyderus fel gwaith cartref trwy gwlhau nifer o dasgau. Mae'r cyfle yma yn enwedig yn ddefnyddiol wrth ystyried cymhwysedd digidol. Mae'r cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yma yn gyfrifoldeb newydd ar gyfer ein cwricwlwm newydd yng Nghymru (IADC, 2018), felly mae datblygu dealltwriaeth y disgyblion yn y cartref yn mynd i fod o les iddynt wrth ei ddefnyddio yn yr ystafell dosbarth.

Model Barnes (2015) 'Aml-ddisgyblaethol'

Eglurwyd Barnes (2015) bod y model yma'n ffocysu ar ddefnyddio un profiad neu thema fel ffordd o ehangu dealltwriaeth a pherfformiad mewn un neu dau faes.

Gweithgaredd

Cynlluniwyd y gweithgaredd yma er mwyn ehangu dealltwriaeth disgyblion ynglŷn â defnyddio llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ochr yn ochr yn drawsgwricwlaidd. Mae'r hyn trwy ddefnyddio'r model er mwyn ffocysu ar feysydd dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad Creadigol. Disgwylir i'r disgyblion i weithio mewn parau wrth ymweld â gardd yr ysgol er mwyn chwilio am amryw o fwystfilod. Trwy ymgymryd â'r cyfnod yma o waith bydd y plant yn edrych am yr ardal fwyaf addas ar gyfer rhoi Bwgan Brain er mwyn amddiffyn planhigion a bwystfilod bach trwy fesur safleoedd a thrafod manteision ac anfanteision. Bydd y plant yn ymgymryd â'r dasg o adeiladu Bwgan Brain ar gyfer gardd yr ysgol. Bydd disgyblion yn cael y cyfle i gynllunio Bwgan Brain yn unigol ond mi fydd y dosbarth yn gweithio ar y cyd wrth ei adeiladu. Yn ogystal â hyn, bydd y plant yn chwilio am y bwystfilod bach a thynnu lluniau ohonynt er mwyn dosbarthu data trwy greu pictogram ar 'j2e' ar wefan Hwb ac er mwyn creu llyfr ffeithiau ar gyfer ardal darllen y dosbarth. Bydd yr hyn yn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ynglŷn â ffeithiau a bywyd bwystfilod yn yr ardd. Ar ddiwedd y cyfnod yma o waith, trwy edrych ar Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad Creadigol ar wahân, bydd y plant yn ehangu dealltwriaeth o'r ddau trwy ddefnyddio gardd yr ysgol fel y profiad pwerus sydd wrth wradd y model. Cefnoga Donaldson (2015) addysgu yn fwy ymarferol trwy 'gweithgareddau y tu allan i'r ystafell dosbarth, er mwyn cyrraedd disgwiliadau dysgwyr.

Sgiliau Llythrennedd (YAAS, 2015)

Llinyn: Llafaredd ar draws y cwricwlwm
Elfen: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau
Sgiliau: cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad, rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwlhau tasg.

Sgiliau Rhifedd (YAAS, 2015)

Llinyn: Datblygu ymresymu rhifyddol
Elfen: Adolygu
Sgil: dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol.
Sgiliau Cymhwysedd Digidol (Llywodraeth Cymru, 2016)
Llinyn: Data a meddwl cyfrifiadurol
Elfen: Llythrennedd gwybodaeth a data
Sgil: cofnodi data a gesglir mewn amrywiaeth o fformatau priodol, e.e. rhestrau, tablau, graffiau bloc a phictogramau.

Cryfderau a chyfyngiadau

Trwy gael profiad o fynd allan i'r ardd ysgol bydd y plant yn ehangu dealltwriaeth a defnyddio ystod meysydd dysgu megis Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (YAAS, 2015) yn effeithiol. Yn ogystal, bydd ADCDF yn datblygu gyda'r dysgwyr wrth ddysgu am bwysigrwydd parchu'r ddaear a phethau byw (YAPADGOS, 2008). Er bod yr hyn yn ehangu dealltwriaeth y disgyblion yn fwy trwy niferoedd o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm, nid yw'r rhain yn datblygu llaw yn llaw. Mae'r model hyn yn ffocysu ar ddatblygu dealltwriaeth y plant ar thema benodol trwy ddefnyddio'r meysydd dysgu ar wahân (Barnes, 2015). Trwy ffocysu ar gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd mae'n anodd defnyddio'r rhain ar draws y ddau faes dysgu heb anghofio pwrpas a prif swyddogaeth y model yma o ddatblygu ar wahân. Hefyd, mae angen ystyried unrhyw gostau ychwanegol sydd ynghlwm wrth gynllunio'r gweithgaredd oherwydd gall hyn ymddangos fel cyfyngiad i'r dysgu. Mi fydd costau ychwanegol i'r gweithgaredd Bwgan Brain wrth ystyried adnoddau, ond er mwyn oresgyn hyn, gofynnwyd i'r plant i gyfrannu at hyn trwy ddod mewn ac adnoddau o gartref megis dillad. Bydd yr hyn hefyd yn datblygu perthynas rhwng yr ysgol a rhieni oherwydd bydd yn cyfrannu at y dysgu hyd yn oed os yw'r cyfraniad yn un bach.

